DARGANFOD ARLOESEDD

Mehefin – Awst 2018

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Statws RAG

■ Coch: Dan y targed ■ Oren: Bron â chyrraedd y targed
■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn y i gyrraedd y targed

KnCanolfan Cyfnewid Gwybodaeth ■

Prif allbynnau yn ystod y chwarter:

2 Erthygl Technegol:

- FFERMIO DA BYW YN FANWL GYWIR
- OMEGA 3 MEWN LLAETH

2 Taflen Wybodaeth:

- CYWASGIAD PRIDD
- GWELLA IECHYD Y PRIDD

Partneriaeth Arloesi Ewrop ■



Prosiectau newydd wedi'u cymeradwyo yn ystod y cyfnod hwn:

Bwydo'r Glaswellt Trwy'r Dail

Mae bwydo trwy ddail y planhigyn yn ddull cyflymach o gael nitrogen yn syth i mewn i'r borfa. Nod y prosiect hwn, sy'n cynnwys pedair fferm yn Sir Benfro, yw asesu i ba raddau mae defnyddio bwyd dail yn medru lleihau'r angen am wasgaru gwrtaith N confensiynnol ar y borfa. Anelir i archwilio ei effaith ar safon a faint o ddeunydd sych sydd yn y borfa, yn ogystal â'r cynnwys meillion

Gweithredu Rheolaeth Maetholion Uwch yn Niwydiant Defaid Cymru

Fel rhan o'r prosiect hwn, bydd biopsïau ar yr iau a phrofion gwaed yn cael eu cynnal ar sampl o famogiaid ar draws 12 fferm o Ogledd Cymru. Gall fiopsïau ar yr iau ddarparu asesiad mwy hir dymor o'r crynodiadau maeth mewn defaid o gymharu â phrofion gwaed safonol. Bydd y prosiect yn hwn yn ceisio darganfod os yw cynnal biopsïau ar yr iau o fudd i ffermwyr defaid wrth ddatblygu ymarfer amaethyddol gwell.

Themau'r 16 Prosiect EIP Cymru wedi'u cymeradwyo



Y wybodaeth ddiweddaraf ar brosiectau presennol:

Porfa i Beillwyr

Cynhaliwyd arolygon gwenyn ar draws 6 o ffermydd y prosiect hwn yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dengys y canfyddiadau fod cyfnod a safon y blodau/perlysiau o fewn rhesi gwndwn aml-rywogaeth y ffermydd yn amrywio'n sylweddol gan fod yr amodau sych wedi effeithio pob fferm yn wahanol. Roedd rhai stribedi yn ddwys ac yn eu blodau, tra bod rhai wedi blodeuo. Bydd amseriad yr arolwg yn cael ei newid ar gyfer blwyddyn dau er mwyn dilyn cyflwr pob rhes.

Clwyf Tatws

Ar y 16eg o Awst cynhaliwyd diwrnod agored ar fferm Ty'n yr Helyg, un o'r ffermydd sy'n rhan o'r prosiect, er mwyn trafod canlyniadau blwyddyn gyntaf yr arbrawf. Cafwyd blwyddyn gwbl wahanol i'r flwyddyn flaenorol eleni gan fod y gaeaf oer a'r gwanwyn sych wedi oedi dyfodiad clwy'r tatws. Mae clwy'r tatws wedi cael ei ganfod ar y ddau safle bellach a bydd ei ddatblygiad yn cael ei fonitro trwy gydol y tymor tyfu hyd nes y cynhaeaf.

Teithiau Astudio ■

Ym mis Mehefin teithiodd CFfl Eryri i'r Alban i ymweld â sawl busnes fferm a mynychu Sioe'r Ucheldir.

Ymwelwyd â sawl busnes gwahanol yn cynnwys siop fferm a phlanhigfa a busnes tir âr raddfa fawr. Yn ystod eu hymweliad â Sioe'r Ucheldir cafodd y grŵp gyfle i gyfarfod â swyddogion o CFfl Cothnais a chafwyd trafodaethau diddorol ar gyllid, terfyn oedran a sut oedd y mudiad yn gweithredu yn yr Alban.

Rhai o'r prif wersi a ddysgwyd yn ystod y daith:

- I beidio â bod ofn mentro yn y byd amaethyddol.
- Nid oes rhaid cael profiad o bob dim i lwyddo.
- I sicrhau fod defnydd i offer/siedau'r fferm drwy'r flwyddyn.
- Pwysigrwydd cefnogi busnesau lleol.
- Bod modd arallgyfeirio yn y llefydd mwyaf anghysbell heb wario gormod o arian.
- Bod Mudiad Ffermwyr Ifanc yr Alban yn gweithredu yn hollol wahanol i'r Mudiad yng Nghymru.

Cliciwch yma i ddysgu mwy.

Ffaith Gyflym:
Mae **6** grŵp bellach wedi cynnal teithiau astudio i'r Alban.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government